GWASANAETHAU HUNANGYFEIRIEDIG: PAPUR BRIFFIO

Adrian Roper ac Alun Nutt

Hydref 2008

1) Cyflwyniad

Defnyddir y termau ‘gofal hunangyfeiriedig’ a ‘gwasanaethau hunangyfeiriedig’ i ddynodi amrywiaeth o ddewisiadau a methodolegau sydd â’r nod o roi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau dros asesu, ariannu, trefnu a darparu eu gwasanaethau.

Mae’r symudiad tuag at fethodolegau o'r fath yn gyffredin yn Lloegr, yn fwyaf amlwg trwy waith y prosiect Mewn Rheolaeth ar Gyllidebau Unigol, ac mae wedi cael cefnogaeth swyddogol gan y llywodraeth. Mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol Lloegr bellach yn darparu cyfran sylweddol o wasanaethau yn y ffordd hon.

Mae diddordeb cynyddol yng Nghymru hefyd; sefydlwyd Mewn Rheolaeth Cymru yn ddiweddar, ac mae nifer o awdurdodau lleol wedi dangos diddordeb mewn treialu prosiectau hunangyfeiriedig neu wedi cymryd rhan ynddynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwylio’r arbrawf yn Lloegr ond mae wedi dweud ei fod eisiau symud ymlaen â’r agenda hunangyfeiriedig trwy gynyddu nifer y bobl sy’n defnyddio Taliadau Uniongyrchol.

2) Diben y papur hwn

Nod y papur hwn yw nodi ac esbonio’r prif ddulliau o ddarparu gwasanaethau hunangyfeiriedig a’r ffrydiau ariannu sy’n gysylltiedig â hwy.

Mae dadleuwyr dros y dull hunangyfeiriedig yn honni bod llwyddiannau a manteision sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, mae yna bobl sy’n gweld risgiau a pheryglon sylweddol yn rhai o’r dulliau. Nid yw’r papur hwn yn ceisio cynnig barn ynglŷn â manteision neu anfanteision y gwahanol ddadleuon.

3) Dulliau Hunangyfeiriedig

Fel y nodir uchod, mae gwasanaethau hunangyfeiriedig yn cynnwys nifer o ddulliau sydd â’r nod o roi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau dros asesu, ariannu, trefnu a darparu eu gwasanaethau. Yn gyffredinol mae’r rhain yn cael eu dosbarthu o dan ddau bennawd sy’n dynodi (i raddau mwy neu lai) y ffrydiau ariannu a’r methodolegau darparu gwasanaethau perthnasol.

- Taliadau Uniongyrchol
- Cyllidebau Unigol

Mae trydydd dewis hefyd, a ystyrir weithiau fel peth ‘hanner ffordd’ tuag at Gyllidebau Unigol, ond sy’n werth ei ystyried fel dewis ymarferol ynddo’i hun:

- Cyfrifon Gwasanaeth Unigol

3.1 Taliadau Uniongyrchol

Fel y nodir uchod, dyma’r dull a ffefrir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd, trwy lythyr y Dirprwy Weinidog at awdurdodau lleol, wedi ymrwymo’n ddiweddar i gynyddu nifer y bobl sy’n defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Canfu Arolwg 2007 o Daliadau Uniongyrchol 1,360 o oedolion yng Nghymru oedd yn cael taliadau uniongyrchol, sef dim ond 1.48% o’r holl oedolion oedd yn cael

gwasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd yna 241 o drefniadau eraill ar gyfer taliadau uniongyrchol i blant ag anableddau, neu i rieni oedd yn eu cael ar ran plentyn.

Yn 2004 cyhoeddodd LICC ganllawiau Adran 7 oedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig taliadau uniongyrchol i bawb a all fod yn gymwys i'w cael. Bellach mae hyn yn cynnwys pobl dros 65 oed a phlant. Mae'r ffordd y gweithredir y canllawiau hyn yn amrywio, a dweud y lleiaf, ac mae llawer o adrannau gwasanaethau cymdeithasol fwy neu lai'n eu hanwybyddu. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o Daliadau Uniongyrchol ymhlith gweithwyr cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill, ychydig iawn o hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, a phryderon am y risgiau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Gellir gweld mwy o fanylion yn Arolwg 2007.

Yn gyffredinol, mae gan daliadau uniongyrchol y nodweddion canlynol

- Mae anghenion unigolion yn cael eu hasesu gan reolwyr gofal o dan y system asesu unedig neu system gyfredol arall, sy'n cynhyrchu asesiad o'r oriau o ofal a chymorth y mae eu hangen.

- Nid yw'r asesiad ond yn ymdrin ag anghenion o ran gofal personol a chymdeithasol a roddir yng nghartref neu gymuned yr unigolyn. Nid yw'n cynnwys cymorth cysylltiedig â thai, gofal preswyl na gofal iechyd.

- Nodir costau'r pecyn yn ôl cyfradd yr awr a bennir gan y gwasanaethau cymdeithasol i greu ffigwr ar gyfer y taliad uniongyrchol. Dylid cynnwys costau untro neu reolaidd eraill (megis prynu gwasanaeth broceriaeth, cyflogres neu gyfrifyddu) os cytunir arnynt yn y pecyn.

- Daw'r arian o gronfa gofal cymunedol y gwasanaethau cymdeithasol.

- Mae'r arian yn cael ei dalu'n uniongyrchol i gyfrif banc yr unigolyn, fel arfer un sy'n cael ei agor yn unswydd at y diben hwn.

- Gall yr unigolyn gyflogi ei gynorthwywyr personol ei hun, neu brynu gan asiantaeth, er gall yr awdurdod lleol gyfyngu ei ddewisiadau i unigolion neu ddarparwyr sy'n 'gymeradwy'. Rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth roi cyfrif manwl i'r awdurdod lleol am ei wariant a dangos bod y gwasanaeth mae'n ei brynu'n diwallu ei angen asesedig.

3.2 Cyllidebau Unigol

Dyma'r dull y mae Mewn Rheolaeth yn ei hybu ac a ffefrir gan lywodraeth San Steffan a mwy na 100 o awdurdodau lleol, ar gyfer datblygu gwasanaethau hunangyfeiriedig yn Lloegr.

Ar hyn o bryd nid yw LICC yn cefnogi dull cyllidebau unigol ond mae'n gwylio sut y mae'r system yn datblygu yn Lloegr. Mae pedwar awdurdod yng Nghymru, sef Wrecsam, y Fflint, Sir Fynwy a Phowys wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â Chyllidebau Unigol. Yn Ebrill 2008 roedd gan Wrecsam 10 defnyddiwr gwasanaethau oedd yn cael Cyllidebau Unigol ac roedd wedi datgan ei fwriad i symud 10 o bobl y mis i drefniadau tebyg.

Defnyddir Cyllidebau Unigol mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, gan ddefnyddio model Mewn Rheolaeth, fel arfer mae ganddynt y nodweddion canlynol.

- Mae anghenion yr unigolyn yn cael eu hasesu, o ddewis trwy broses hunanasesu neu, os nad yw hynny'n bosibl, gyda chylch cymorth sy'n cynnwys yr unigolyn, ei deulu, cyfeillion, eiriolwyr ac ati.

- Mae'r asesiad yn cael ei gysylltu â system dyrannu adnoddau (holiadur ar sail pwyntiau, yn aml iawn) ac o honno ceir swm, sef cronfa gwasanaeth yr unigolyn. (pwyntiau = punnoedd)

- Gall y gronfa gyfuno arian Cefnogi Pobl, Gofal Cymunedol, Cronfa Byw'n Annibynnol a grant Cyfleusterau i'r Anabl a Mynediad i Waith. Roedd y cynlluniau peilot yn Lloegr hefyd yn cynnwys Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol Integredig.

- Gall yr unigolyn ddewis defnyddio'i gronfa mewn amryw o ffyrdd

    i) Fel taliad uniongyrchol mewn arian parod iddo ei reoli ei hun
    ii) Fel taliad mewn arian parod i gael ei reoli ar ei ran (am ffi yn aml iawn) gan ei asiant, ei ymddiriedolaeth, ei frocer neu gan ddarparwr gwasanaethau o'i ddewis
    iii) Gall adael ei gronfa i gyd, neu ran ohoni (e.e. ar gyfer gwasanaethau dydd) i gael ei rheoli gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r awdurdod lleol
    iv) Pwy bynnag sy'n rheoli'r arian, anghenion, dewisiadau a hoffterau'r unigolyn ddylai ddylanwadu'n bennaf ar benderfyniadau

- Gall yr unigolyn (neu ei asiantau) ddewis cyflogi ei gynorthwywyr personol ei hun, ariannu mynediad i wasanaethau neu weithgareddau cymunedol, neu brynu gwasanaethau asiantaeth ddarparu. Pa bynnag broses sy'n cael ei dewis, mae'n rhaid i'r unigolyn neu'r asiant roi cyfrif i'r awdurdod lleol am ei wariant a dangos bod y gwasanaeth mae'n ei brynu'n diwallu ei angen asesedig. Gall yr asesiad a'r swm yn y cyfrif gael eu newid i adlewyrchu'r amgylchiadau

- O dan y trefniadau presennol rhaid i rannau cyfansoddol y gronfa gael eu gwario'n unol â'r manylebau neu reoliadau sy'n rheoli'r defnydd ohonynt, e.e. rhaid i'r rhan Cefnogi Pobl gael ei gwario ar gymorth cysylltiedig â thai

- Dylai unrhyw wargedion o dro i dro gronni yng nghronfa barhaol yr unigolyn, er gall trefniant 'adfach' gael ei ddefnyddio, yn aml i ariannu gofynion argyfyngau.

3.3 Cyfrifon Gwasanaeth Unigol

Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio gan rai darparwyr, yn arbennig yn yr Alban, megis Inclusion Glasgow a C-Change, lle y'u gelwir Cronfeydd Gwasanaeth Unigol (Individual Service Funds).

Fe nodir bod Cyllidebau Unigol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol newid ei fethodoleg 'draddodiadol' o asesu ac ariannu. Fel y nodir uchod, fodd bynnag, ymddengys nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru'n barod i groesawu newid i wasanaethau hunangyfeiriedig, boed yn Daliadau Uniongyrchol neu'n Gyllidebau Unigol.

Mae Cyfrifon Gwasanaeth Unigol yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau ddatblygu dull mwy tryloyw, sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, o ariannu a darparu gwasanaethau, yn ogystal â dangos, o bosibl, fanteision cymorth hunangyfeiriedig, o fewn trefniadau cyfredol yr awdurdod lleol.

Mae adroddiadau diweddar yn y wasg (The Guardian, Mehefin 26ain 2008) wedi awgrymu y gofynnir i awdurdodau lleol yn Lloegr wneud trefniadau tebyg i bawb sy'n cael gofal a chymorth a ariennir gan y wladwriaeth. Byddai hyn yn golygu rhoi gwybod i bawb sy'n cael gofal beth yw cost eu pecyn gofal a'u gwahodd i awgrymu newidiadau a allai gynnig gwell werth am arian neu ddiwallu eu hanghenion yn well.

Gellir disgrifio nodweddion y dull hwn fel a ganlyn.

- Mae'r darparwr yn contractio gyda'r awdurdod lleol o dan y trefniadau contractio 'bloc' arferol

- Wedyn mae'r 'grant' bloc yn cael ei ddadgyfuno i roi Cyfrif Gwasanaeth Unigol wedi'i neilltuo ar gyfer pob unigolyn sy'n cymryd rhan, wedi'i seilio ar ei fanyleb gwasanaeth personol. Wedyn mae'r cyfrif hwn yn cael ei weinyddu gan y darparwr fel cronfa wasanaeth ar wahân yn benodol i'r unigolyn hwnnw

- Mae'r gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu gydag ac i'r unigolyn ac mae'r asiantaeth yn atebol i'r unigolyn am reoli'r Cyfrif Gwasanaeth Unigol yn briodol. Mae'r darparwr yn dal i fod yn atebol i'r awdurdod lleol am weinyddu'r grant bloc o dan y trefniadau arferol

- Mae gorbenion a thaliadau rheoli'n cael eu capio ar ganran gytunedig, a gwneir yr un peth gyda 'chronfa yswiriant' ar gyfer cyfnodau o gymorth dwysach neu argyfyngau.

- Gall pobl sy'n byw mewn llety a rennir gytuno i brynu rhywfaint o gymorth a rennir e.e. cysgu drosodd, os yw'n angenrheidiol ac yn briodol. Fodd bynnag, ni ddylid gorfodi unigolion i brynu na chyfrannu at wasanaethau penodol nad oes arnynt hwy'n bersonol eu hangen, dim ond oherwydd eu bod yn rhannu cartref gyda phobl y mae arnynt angen y gwasanaethau hynny.

alun.nutt@cartreficymru.org

adrian.roper@cartreficymru.org